



**Diolch i chwaraewyr
y Loteri Genedlaethol
Thanks to National
Lottery players**

**CALON
TAF**



calontaf.co.uk  
CalonTaf@rctcbc.gov.uk

Llwybr Coed i Deuluoedd!

Family Tree Trail

**Ewch am dro drwy'r parc a
gweld rhai o'i goed mwyaf diddorol**

**Take a stroll through the park and discover
some of its most fascinating trees**



**Parc Coffa
YNYSANGHARAD
War Memorial Park
Pontypridd CF37 4PE**

 **Trawsnewid Trefi
Transforming Towns**


**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**


RHONDDA CYNON TAF

Croeso i'n Llwybr Coed!

Er bod Parc Coffa Ynysangharad yn llawn coed gwych, mae'r llwybr yma'n canolbwyntio ar ddetholiad sy'n arddangos eu harddwch, eu hanes, a'r rolau pwysig y maen nhw'n eu chwarae ym myd natur.

Wrth i chi gerdded, edrychwch o'ch cwmpas ac edmygu'r coed anhygoel. Maen nhw'n gwneud cymaint i ni a'r blaned, fel darparu ocsigen i'w anadlu, storio carbon deuocsid a chreu cartrefi i fywyd gwyllt, o wiwerod ac ystlumod i adar a phryfed.

- Wrth i chi grwydro'r parc a chael gwybod ei hanes cyfoethog, cofiwch:**
- Parchu'r parc:**
Ewch â sbwriel adref gyda chi neu ei roi mewn biniau sbwriel. Cadwch at lwybrau neu fannau wedi'u tocio, gan fod gwair hir a 'pharthau gwyllt' yn gartrefi i lawer o greaduriaid na ddylid tarfu arnyn nhw.
 - Rhannu'r parc:**
Cadwch lygad am gerddwyr, rhedwyr a beicwyr.
 - Trysorau byd natur:**
Mae'n iawn i godi brigau, dail a blodau sydd eisoes wedi cwmpo i'r llawr, ond dylen ni adael y rhai sydd heb yn eu lle er mwyn i bawb allu parhau i edmygu eu harddwch.

I gael rhagor o wybodaeth am y parc:
www.rctcbc.gov.uk/ParcCoffaYnysangharadPontypridd



Welcome to our Tree Trail!

Ynysangharad War Memorial Park is full of wonderful trees - this trail focuses on a handpicked selection of trees that showcases their beauty, history, and the important roles they play in nature.

As you walk, take a moment to look around and admire these amazing trees. They do so much for us and the planet—like providing oxygen to breathe, capturing carbon dioxide, and creating homes for wildlife, from squirrels and bats to birds and insects.

- As you explore the park and discover its rich history, please remember to:**
- Respect the park:**
Take litter home or place them in litter bins. Stick to paths or mown areas, as long grass and 'wild zones' are homes for lots of creatures that shouldn't be disturbed.
 - Share the space:**
Keep an eye out for walkers, runners and cyclists.
 - Nature's treasures:**
It's fine to pick up twigs, leaves and flowers that have already fallen to the ground, but we should leave those that haven't in their place so that everyone can continue to admire their beauty.

For more information on the park:
www.rctcbc.gov.uk/YnysangharadWarMemorialParkPontypridd

ENW LLADIN:

Quercus

Derwen

Mae coed Derw yn gryf, ac maen nhw'n gallu goroesi am gannoedd o flynyddoedd. Maen nhw'n darparu cartrefi i lawer o fathau o fywyd gwyllt gan gynnwys adar, pryfed a mamaliaid. Mae gan goed Derw risgl garw, dail llabedog a mes, sy'n cwmpo yn yr hydref.

Acer pseudoplatanus

Sycamorwydden

Mae coed Sycamorwydd yn tyfu'n gyflym ac mae gyda nhw risgl sy'n pilio. Mae'r coed yma'n ymddangos yn aml mewn parciau ac ar strydoedd. Mae eu dail mawr yn edrych ychydig fel dail Masarn ac mae eu hadau'n troelli fel hofrennydd wrth gwympo i'r llawr.

Prunus avium

Ceiriosen Ddu

Mae'r coed yma'n adnabyddus am eu blodau pinc a gwyn yn y gwanwyn. Mae'r coed hefyd yn cynhyrchu ffrwythau y mae adar ac anifeiliaid bach yn hoff o'u bwyta. Mae pren coed Ceirios Du hefyd yn cael ei ddefnyddio i wneud dodrefn.

Sorbus aria

Cerddinen Y Darren Fach

Mae'n hawdd adnabod y coed yma drwy edrych ar ochr isaf ariannaidd eu dail, sy'n golewyrchu yn y gwynt. Yn yr hydref, mae eu haeron coch yn boblogaidd iawn ymysg adar.

Sorbus aucuparia

Cerddinen / Coed Criafol

Mae sawl enw Cymraeg i'r coed yma ac maen nhw'n hawdd i'w gweld oherwydd eu blodau gwyn yn y gwanwyn ac aeron coch llachar yn yr hydref. Mae adar yn hoff iawn o wleda ar yr aeron yma.

Aesculus hippocastanum

Castanwydden

Mae'r coed yma'n enwog am eu concyrs brown sgleiniog yn yr hydref. Mae bodau dynol a bywyd gwyllt yn hoff iawn o goed Castanwydd. Mae eu blodau gwyn a phinc yn blodeuo yn y gwanwyn.

Acer palmatum

Masarnen Siapan

Mae coed Masarn Japaneaidd yn fach ond yn drawiadol, gyda dail lliwgar sy'n newid gyda'r tymhorau. Caiff y coed yma'u defnyddio mewn gerddi Japaneaidd i symboleiddio llongydwch a heddwch.

Ilex aquifolium

Celynnen

Mae coed Celyn yn ffefryn dros gyfnod y Nadolig, gyda dail gwyrdd sgleiniog ac aeron coch llachar (ar goed benywaidd). Maen nhw'n darparu bwyd a lloches i lawer o anifeiliaid ac yn bywiogi unrhyw dirwedd.

Eucalyptus sp

Ewcalyptws

Mae gan y coed yma arogl nodedig oherwydd eu dail aromatig. Er eu bod ddim yn frodorol i'r DU, maen nhw'n goed arbennig yma ac yn helpu i gefnogi bioamrywiaeth.

Platanus x hispanica

Pilcoes y Ddinas

Mae coed Pilcoes y Ddinas yn adnabyddus am eu rhisgl anghyson, sy'n edrych fel cuddliw. Maen nhw'n wydn iawn ac maen nhw'n tyfu'n dda mewn lleoliadau trefol, gan helpu i lanhau'r aer a darparu cysgod.

Fagus sylvatica

Ffawydden

Mae coed Ffawydd yn adnabyddus am eu rhisgl llyfn, llwyd a dail euraidd yr hydref. Maen nhw'n bwysig i fywyd gwyllt ac yn creu canopi heddychlon yn y parc.

Sequoiadendron giganteu

Secwoia Mawr

Mae'r coed anhygoel yma ymysg y talaf a'r hynaf yn y byd! Mae eu rhisgl trwchus a'u boncyffion enfawr yn rhyfeddol.

Salix babylonica

Helygen Wylofus

Mae'n hawdd adnabod coed Helyg Wylofus oherwydd eu canghennau hir, crychlyd. Yn y gwanwyn, maen nhw'n blodeuo gyda blodau cenau cyll melyn, gan ychwanegu ychydig o liw meddal i'r parc.

LATIN NAME:

Quercus

Oak

Oaks are strong and can survive for hundreds of years. They provide homes for many types of wildlife, including birds, insects, and mammals. You can spot oaks by their rough bark, lobed leaves, and acorns, which fall in autumn.

Acer pseudoplatanus

Sycamore

Sycamores are fast-growing trees with peeling bark that often appear in parks and streets. Their large leaves look a bit like maple leaves, and their seeds spin like helicopters when they fall to the ground.

Prunus avium

Wild Cherry

Known for their pink and white spring blossoms, Wild Cherry trees also produce fruit that's loved by birds and small animals. The wood from wild cherries is also valued for making furniture.

Sorbus aria

Whitebeam

These trees are easily identified by the silvery underside of their leaves, which shimmer in the wind. In autumn, their red berries are big hit with birds.

Sorbus aucuparia

Rowan

Also called Mountain Ash, these trees are easy to spot with their white flowers in spring and bright red berries in autumn. They are loved by birds who feast on the berries.

Aesculus hippocastanum

Horse Chestnut

Famous for their shiny brown conkers in autumn, Horse Chestnuts are loved by families and wildlife alike. Their white and pink spring flowers are a beautiful sight too.

Acer palmatum

Japanese Maple

Japanese Maples are small but eye-catching, with colourful leaves that change with the seasons. These trees are also used in Japanese gardens to symbolise tranquility and peace.

Ilex aquifolium

Holly

Holly trees are a festive favourite, with shiny green leaves and bright red berries (on female trees). They provide food and shelter for many animals and brighten up any landscape.

Eucalyptus sp

Eucalyptus

These trees have a distinctive smell thanks to their aromatic leaves. They may not be native to the UK, but they have found a special place here and help support biodiversity.

Platanus x hispanica

London Plane

London Plane trees are known for their patchy bark, which looks like camouflage. They are very resilient and can grow well in urban settings, helping to clean the air and provide shade.

Fagus sylvatica

Beech

Beech trees are known for their smooth, grey bark and golden autumn leaves. They are important for wildlife and create a peaceful canopy in the park.

Sequoiadendron giganteum

Giant Sequoia

These incredible trees are some of the tallest and oldest in the world! Their thick bark and massive trunks make them a true wonder to see.

Salix babylonica

Weeping Willow

Weeping Willows are easy to recognise because of their long, drooping branches. In spring, they bloom with delicate yellow catkin flowers, adding a soft touch of colour to the park.

Cysylltiadau Hanesyddol

Amser maith yn ôl, tir fferm oedd yma ac roedd yn rhan o ystad fawr o'r enw Tŷ Ynysangharad.

Roedd teulu'r Lenoxes yn byw yma. Diwydianwyr oedden nhw a oedd yn gwneud cadwyni angari enfawr ar gyfer llongau!

Cafodd Gwaith Cadwyni Brown Lenox ym Mhontypridd ei adeiladu yn 1818. Er mwyn creu'r cadwyni, roedd angen digonedd o lo a haearn, a oedd ar gael yn yr ardal yma.

Does dim llawer o'r hen ystad ar ôl heddiw, ond os edrychwch chi ar y wal frics felen o amgylch Canolfan Calon Taf, fe welwch chi ei bod hi'n dilyn yr un llinell â hen ardd lysiau'r ystad. Mae hyd yn oed yn cysylltu â darn bach o'r wal gerrig wreiddiol.

Historic Links

A long time ago, before this was a park, it was farmland and part of a big estate called

Ynysangharad House.

A family called the Lenoxes lived here, they were industrialists who made huge anchor chains for ships! They built their Brown Lenox Chainworks in Pontypridd in 1818 because the area had plenty of coal and iron, which they needed to make their chains.

Not much of the old estate is left today, but if you look at the yellow brick wall around Calon Taf, you will see it follows the same line as the estate's old kitchen garden. It even connects to a small piece of the original stone wall, a little piece of history still standing in the park!

Gwybodaeth am y daith gerdded yma:

Mae'r llwybr coed 1.5km yma'n addas i deuluoedd a bydd yn cymryd tua awr os byddwch chi'n oedi ym mhob man aros ar hyd y ffordd.

Mae'r llwybrau wedi'u cynllunio ar gyfer amrywiaeth o anghenion symudedd, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwrthio. Ond sylwch fod y llethr sy'n arwain i'r ardd isel yn eithaf serth, a bydd angen defnyddio grisiau i fynd at y safle seindorf, er bod yr ardal o'i amgylch yn hygyrch. Mae'r llwybr yn cynnwys cyfleuster toiled a chaffi. Cofiwch hefyd fod llefydd bwyta a diod ar gael yng nghanol y dref.

About this walk:

This 1.5km family-friendly tree trail takes approximately one hour if you pause at each stopping point along the way.

The pathways are designed to accommodate a range of mobility needs, including wheelchair users and pushchairs. However, please note that the slope leading into the sunken garden is quite steep, and access into the bandstand itself requires navigating steps, though the area around it is accessible.

The route includes one toilet facility and a cafe. Additional food and drink options are available just across the bridges in the town centre.

Wrth i chi adael Calon Taf a mynd tuag at y cae pêl-droed, byddwch chi'n mynd heibio'r hen doiledau cyhoeddus. Mae'r rhain wedi'u hadfer a bellach yn ardal les i staff y parc. Allwch chi weld ym mha flwyddyn y cafodd yr adeilad yma'i adeiladu'n wreiddiol?

As you leave Calon Taf and head towards the football pitch, you'll pass the old public toilets. These have been restored and is now a welfare area for park staff. Can you see what year this building was originally built?

1 DERWEN
Wrth Ganolfan Calon Taf
OAK
By Calon Taf
leap.bank.swing

12 SECWOIA MAWR
Y tu ôl i Evans James a James James
GIANT SEQUOIA
Behind Evans James James
amuse.tour.that

13 HELYGEN WYLOFUS
Wrth safle'r seindorf
WEeping WILLOW
By the bandstand
stole.stores.game

Gogledd North De South

MASARNEN
Ar gornel glan yr afon a llwybrau'r maes criced
SYCAMORE
Corner of the river edge and cricket ground paths
famed.poet.kite

CEIRIOSEN DDU
Cyferbyn â giât yr ardd wyllt
WILD CHERRY
Opposite the entrance gate to the wild garden
learns.hang.become

CERDDINEN Y DARREN FACH
Wrth yr ardd wyllt, ar hyd glan yr afon
WHITEBEAM
Just before the wild garden, along the riverside
broad.scared.across

CERDDINEN / COED CRIAOL
Wrth y pafiliwn bowlio
ROWAN TREES
Close to the bowling pavilion
goods.liability.voting

Mynediad i'r Parc

Access to the Park

Prif Gatiau
i Stryd y Bont

Main Gates
To Bridge Street

Gatiau Cerddwyr
i Stryd y Bont

Pedestrian Gates
To Bridge Street

Pont Dyffryn Taf
i ganol y dref / Stryd Taf drwy Lys Cadwyn (Llyfrgell)

Taff Vale Bridge
To Taff Street via Llys Cadwyn (Library)

Pont M&S
i Borth y De, Stryd Taf a Stryd y Felin

M&S Bridge
To Southern Gateway, Taff Street and Mill Street

Gât Llwybr Taith Taf
i Drefforest ar hyd Llwybr Taith Taf

Taff Trail Gate
To Treforest via the Taff Trail

Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol **National Cycle Network**

Llwybr Celtaidd **4** The Celtic Trail

Llwybr Taf **8** Taff Trail

Panel Gwybodaeth **Information Panel**

Postyn Sain **Listening Post**

Toiledau **Toilets**

Chwarae'r Lido **Lido Play**

Swyddfa'r Ceidwad **Rangers Office**
Cymorth Cyntaf First Aid

Caffi **Cafe**

Lido Pontypridd **Lido Pontypridd**
Lido Cenedlaethol Cymru National Lido of Wales

Pafiliwn Criced **Cricket Pavilion**

Lawnt Fowlio **Bowls Green**

Ardaloedd Bywyd Gwylt **Wild Zone**

Ardal Ymarfer Corff i Gŵn **Dog Exercise Area**

11 FFAWYDDEN
Ar hyd llwybr sy'n rhedeg gyferbyn â'r ffordd
BEECH
Along path that runs adjacent to road
grace.eagles.bids

10 PILCOES Y DDINAS
Wrth Silwét Nyrs y Rhyfel Byd Cyntaf
LONDON PLANE
Just before the WWI nurse silhouette
dating.navy.every

9 EWCALYPTWS
Wrth ymyl y pafiliwn criced
EUCALYPTUS
Next to the cricket pavilion
hope.circle.owner

8 COED CELYN
Rhng yr ardd isel a'r lawnt bowlio
HOLLY TREES
Between the sunken garden and bowling green
shares.unity.gain

7 MASARNEN SIAPAN
Yn yr ardd isel
JAPANESE MAPLE
In the sunken garden
mull.obey.piper

6 CASTANWYDDEN
Yr ail goeden ar hyd yr afon o bont M&S
HORSE CHESTNUT
Second tree along the river from the M&S bridge
places.spoon.turkey

Hanes Dwy Afon
Wyddoch chi fod dwy afon yn cwrdd ger pont droed y de? Dyma lle mae Afon Rhondda yn ymuno ag Afon Taf, sy'n golygu mai Pontypridd yw porth Cymoedd y Rhondda! Mae Afon Taf yn amgylchynu dwy ochr y parc, bron fel cwtsh mawr. Tybed ai dyna'r rheswm dros gynnwys "ynys" yn yr enw?

A Tale of Two Rivers
Did you know that two rivers meet near the southern footbridge? This is where the River Rhondda joins the River Taff, making Pontypridd the gateway to the Rhondda Valleys! The Taff wraps around two sides of the park, almost like a big hug. Maybe that's why the park's name includes the Welsh word "ynys" which means island!

Diolch am alw heibio – bydden ni wrth ein boddau'n clywed am eich ymweliad!

Rhannwch eich atgofion, ymunwch
â'n hachlysuron, a chadwch mewn
cysylltiad â ni ar gyfryngau
cymdeithasol, trwy ymweld â'n
gwefan neu anfon e-bost aton ni.

Thank you for visiting – we'd love to hear about your visit!

Share your memories, join our events,
and stay connected with
us on social media, by visiting our
website or emailing us.

CalonTaf@rctcbc.gov.uk

   **CalonTaf**



**Gobeithio eich bod
wedi mwynhau archwilio
ein parc bendigedig!
Os oeddech chi wrth eich
bodd â'r llwybr yma, beth am
roi cynnig ar ein Llwybr Bywyd
Gwyllt neu Llwybr Treftadaeth?**

Ewch i Ganolfan Calon Taf i nôl
taflen am ddim neu ei
lawrlwytho o'n gwefan.

CalonTaf.co.uk 

**We hope you've enjoyed
exploring our wonderful park! If
you loved this trail, why not try
our Wildlife or Heritage Trail?**

You can pick up a free leaflet
from Calon Taf or download
it from our website.

Beth sydd ar y gweill gyda chi?

I gael syniadau ac ysbrydoliaeth am
lefydd yn Rhondda Cynon Taf i fwyta,
aros neu ymweld â nhw, ewch i...

www.croesorhct.cymru

Wondering what to do next?

For ideas & inspiration on places to
visit, eat or stay in Rhondda Cynon Taf
check out...

www.visitrct.wales

